
Fferm Wynt
**Foel Fach**
Wind Farm



# ARWYR ADNEWYDDADWY

Coriolis Energy

ESB energy

cyswllt@foelfach.cymru | 01678 550032 | www.foelfach.cymru

# Ynni adnewyddadwy

Helo!

Ni yw Coriolis Energy ac ESB, rydyn ni'n adeiladu ac yn rhedeg prosiectau ynni adnewyddadwy sy'n cynhyrchu trydan glân, gwyrdd.

Mae angen trydan arnon ni ar gyfer llawer o bethau yn ein cartrefi, ysgolion, siopau ac ar gyfer teithio. Mae trydan yn pweru ein goleuadau, setiau teledu, ffonau symudol, a rhai ceir a bysiau.

Ar gyfer pa bethau eraill mae angen trydan arnon ni? Enwch gymaint ag y gallwch.

Mae ynni adnewyddadwy yn dod o ffynonellau naturiol fel y gwynt, yr haul a'r môr. Ni fydd y ffynonellau ynni hyn byth yn rhedeg allan.

**Mae Cymru yn anelu at gynhyrchu 100% o'i thrydan o ffynonellau ynni adnewyddadwy erbyn 2035 – mae hynny'n llai na 10 mlynedd i ffwrdd!**

## Chwilair

| | |
|---|---|
| Llafnau | Haul |
| Car | Teledu |
| Trydan | Tŵr |
| Ynni | Tyrbin |
| Gwyrdd | Gwynt |

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ŷ | T | B | I | J | A | LL | F | O | W | S | Y | L | J | Ŵ | G | P |
| FF | Y | R | M | D | E | T | L | Ô | I | U | Ŷ | PH | Y | H | FF | T |
| Y | R | CH | L | R | U | B | O | I | A | T | N | R | N | O | C | M |
| U | B | W | S | J | LL | H | O | W | D | E | S | J | N | M | Y | DD |
| J | I | T | O | B | E | A | F | L | N | L | R | Y | I | H | K | Y |
| D | N | G | F | N | L | RH | F | E | N | R | L | C | A | R | O | L |
| W | S | P | R | M | E | A | O | N | H | W | J | F | W | T | P | L |
| L | I | TH | U | L | C | A | D | M | A | O | I | B | N | R | Y | E |
| H | G | W | Y | R | DD | T | W | U | U | U | A | Y | H | E | M | U |
| N | A | H | I | W | R | P | D | Y | L | S | W | I | DD | C | I | S |
| E | H | B | F | S | I | E | E | D | N | G | O | F | I | R | D | LL |
| C | J | W | Ŷ | U | L | DD | Y | C | G | R | S | E | R | W | P | J |
| L | LL | U | O | E | I | K | L | K | W | H | T | Ŵ | D | L | W | E |
| R | D | G | T | R | Y | D | A | N | I | A | T | Y | G | W | F | RH |
| H | T | E | R | P | Y | W | O | D | R | S | N | L | W | Ŷ | J | A |
| S | K | DD | T | E | N | T | Y | M | Y | H | I | W | N | W | Ô | U |
| L | T | C | S | U | RH | W | A | PH | W | H | O | W | F | I | Y | N |

# Sut rydyn ni'n gwneud trydan o'r gwynt


Mae peiriant o'r enw tyrbin gwynt yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu trydan gan ddefnyddio'r gwynt.


Mae gan dyrbin gwynt dŵr tal gyda llafnau ar ei ben.

Pan fydd y gwynt yn chwythu mae'n troi llafnau'r tyrbin, sy'n gwneud i'r generadur droelli, sy'n cynhyrchu trydan.

Rhaid adeiladu tyrbinau gwynt mewn mannau gwyntog. Mae'r gwynt yn gyflymach ar dir uwch, felly mae Cymru'n ddelfrydol oherwydd bod llawer o fryniau a mynyddoedd yma!

## Tyrbin gwynt



Rydyn ni'n galw llawer o dyrbinau gwynt gyda'i gilydd yn fferm wynt



Ar ddarn o bapur ar wahân, tynnwch lun o fferm wynt. Efallai yr hoffech gynnwys tyrbinau gwynt, coed ac anifeiliaid.

**Mae pobl wedi bod yn defnyddio'r gwynt ers miloedd o flynyddoedd i hwylio llongau, i droi llafnau melin wynt i falu grawn ar gyfer blawd, ac i bwmpio dŵr.**

Mae safle ein fferm wynt bosibl yn Foel Fach yn lle gwych i gynhyrchu trydan oherwydd ei fod yn uchel ac yn cael llawer o wynt. Rydyn ni'n cynnig 10 tyrbin, a fyddai'n cynhyrchu trydan ar gyfer tua 68,700 o gartrefi.

**Yn 1887, cafodd trydan ei gynhyrchu gan ddefnyddio tyrbin gwynt am y tro cyntaf erioed.**

# Newid hinsawdd



Mae 'newid hinsawdd' yn disgrifio newidiadau i dywydd a thymheredd y Ddaear dros amser hir. Mae gwyddonwyr wedi dangos bod newid hinsawdd sydd wedi cael ei achosi gan bobl yn gwneud i'r blaned gynhesu, hyd yn oed mewn mannau oer iawn fel yr Arctig.

Gall newid hinsawdd fod yn wael i bobl a bywyd gwyllt oherwydd ei fod yn achosi stormydd, tanau gwyllt, llifogydd a sychder. Mae gwyddonwyr yn dweud bod 1 o bob 6 rhywogaeth mewn perygl o ddiflannu oherwydd newid hinsawdd.

Rydyn ni'n defnyddio tanwydd ffosil fel olew a nwy i gynhyrchu trydan, cynhesu ein cartrefi, pweru ein ffatrïoedd a thanio ein ceir. Pan fyddwn yn llosgi tanwydd ffosil, mae mwy o nwyon yn cael eu rhyddhau i'r atmosffer sy'n gwneud i'r Ddaear ddal gafael ar fwy o wres yr haul. Dyma'r prif reswm dros newid hinsawdd.

Mae angen i ni roi'r gorau i ddefnyddio tanwydd ffosil a defnyddio trydan o ynni adnewyddadwy yn lle.

Ar ddarn o bapur ar wahân, ysgrifennwch restr o bethau y gallen ni i gyd eu gwneud i helpu'r blaned.



# Barod amdani?

## Cysylltwch y dotiau a lliwiwch y car trydan

